**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**7 Tachwedd 2023**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy’n gymwys o ran Cymru, o ganlyniad i ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir (a thermau cysylltiedig) yn gyfraith a gymathwyd (a thermau cysylltiedig) bob amser ar ôl diwedd 2023, fel y’i nodir yn adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf 2023").

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Y pwerau sy'n cael eu harfer i wneud y Rheoliadau hyn yw'r rhai a roddir gan adrannau 19(1) ac 20(1)(b) o Ddeddf 2023. Mae adran 19(1) yn rhoi pŵer i awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud darpariaeth yr ystyrir ei bod yn briodol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2023, sydd, yn rhinwedd adran 20(1), yn cynnwys y gallu i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed. Mae adran 21(1) o Ddeddf 2023 yn cadarnhau bod Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Er bod adran 21(1) o Ddeddf 2023 yn darparu bod awdurdod cenedlaethol perthnasol hefyd yn cynnwys un o Weinidogion y Goron, neu un o Weinidogion y Goron a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd, dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru arfer pwerau o dan Ddeddf 2023.

Efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno nodi i'r Senedd wrthod cydsyniad ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ddwywaith, ar 28 Mawrth 2023 ac ar 6 Mehefin 2023. Cafodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Mehefin 2023.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Er mwyn cynnal sicrwydd cyfreithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, darparodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ar gyfer cadw'r mwyafrif o gyfraith yr UE fel yr oedd yn gymwys mewn un neu ragor o systemau cyfreithiol y DU ar 31 Rhagfyr 2020. Ymgorfforodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 y gyfraith UE honno ar lyfr statud y DU o dan yr enw "cyfraith yr UE a ddargedwir".

Mae Deddf 2023 yn hwyluso diwygio, ailddatgan neu ddirymu ac amnewid cyfraith yr UE a ddargedwir. Mae hefyd yn cymathu cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn parhau mewn grym ar ôl diwedd 2023 gan nodi'r hyn a ddefnyddir yn enw ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir a thermau cysylltiedig ar ôl diwedd 2023, yn ogystal â dileu nodweddion arbennig cyfraith yr UE sydd ynghlwm wrthi, megis goruchafiaeth, effeithiau deongliadol a hawliau adran 4.

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn defnyddio pwerau a roddir gan Ddeddf 2023 i ddiweddaru cyfeiriadau o "cyfraith yr UE a ddargedwir" i “cyfraith a gymathwyd” (a thermau tebyg) mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed yng Nghymru, i adlewyrchu'r broses uchod o ailenwi cyfraith yr UE a ddargedwir yn gyfraith a gymathwyd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1) ac 20(1)(b) o Ddeddf 2023. Mae adran 19(1) yn rhoi pŵer i awdurdod cenedlaethol perthnasol i wneud darpariaeth yr ystyrir ei bod yn briodol o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2023, sydd, yn rhinwedd adran 20(1), yn cynnwys y gallu i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

Mae paragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 2023 yn darparu bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft; a bod rheoliadau o dan adran 19 sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae paragraff 2 o Atodlen 5 yn cadarnhau y caniateir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Pan fo rheoliadau wedi cael eu cyfuno yn y modd hwn, bydd yr offeryn statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Felly, yn unol â pharagraff 8(1) o Atodlen 5 i Ddeddf 2023, mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau hyn yw diweddaru cyfeiriadau o gyfraith yr UE a ddargedwir (a thermau cysylltiedig) i gyfraith a gymathwyd (a thermau cysylltiedig). Mae hyn o ganlyniad i adran 5 o Ddeddf 2023 sy'n sefydlu "cyfraith a gymathwyd" yn gorff newydd o gyfraith ac yn nodi'r hyn a ddefnyddir yn enw ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir a thermau cysylltiedig ar ôl diwedd 2023. Mae'r diwygiadau hyn yn cael eu gwneud am resymau sicrwydd a hygyrchedd cyfreithiol.

Effaith y Rheoliadau hyn yw y bydd diwygiadau testunol yn cael eu gwneud i ddiweddaru cyfeiriadau o'r fath o gyfraith yr UE a ddargedwir (a thermau cysylltiedig) i gyfraith a gymathwyd (a thermau cysylltiedig) yn y ddeddfwriaeth isod.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn diwygio'r darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol a ganlyn:

- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008;
- Mesur Gwastraff (Cymru) 2010; a
- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio'r darnau o is-ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003;
- Rheoliadau’r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005;
- Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011;
- Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011;
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Gweddillion Uchaf) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020;
- Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020;
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020; a
- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

Nid oes unrhyw newid sylweddol i bolisi na deddfwriaeth sydd i'w dwyn i rym gan y newidiadau hyn, sy'n cael eu gwneud i ddiweddaru llyfr statud Cymru.

## 5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi’i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae’r Rheoliadau yn eu gwneud.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddiweddaru deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau yn newid y

polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.